# y dinesydd

Medi 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 230

# Yr Athro Dewi Eirug Davies

Gyda theitl felly roedd ei farw yn golled fawr ynddi ei hun. Ond nid oedd yn golled i'r byd academaidd yn unig - a chrefyddol-academaidd yn ei hanes ef - ond i sawl cylch arall ac nid lleiaf i'r cylch Cymraeg yng Nghaerdydd. Gellid dweud yn wir i'r golled fod i Gymru gyfan gymaint a fu ei gyfraniad fel pregethwr, athro a llenor.

Fel aelod ym Minny Street bu'n pregethu lawer gwaith yno a'i bregethau bob amser yn oleuedig ac argyhoeddiadol. Roedd ganddo ddull dymunol dros ben o draddodi, yn hamddenol a dengar ond gyda'r nodyn proffwydol bob amser, yn galw ac yn cysuro ac yn herio. Credai'n angerddol mewn pregethu ac iddo ef nid oedd gwaith hafal iddo a dim pwysicach.

Bu Dewi'n ffyddlon iawn yn y Cylch Llyfryddol a'r gaeaf diwethaf ef oedd y llywydd a chofiwn o hyd am ei ddull braf yn cyflwyno'r siaradwyr yn y cyfarfodydd ac yna'n diolch iddynt mewn termau a fyddai wrth fodd y darlithwyr a'r gwrandawyr. 'Serenedd' oedd gair un o aelodau'r Cylch amdano. Gellid ychwanegu 'a hiwmor braf'.

Wrth gwrs yr oedd byd llyfrau'n rhan annatod o'i fywyd ac wedi ysgrifennu cyfrolau nodedig ei hun fel *Diwinyddiaeth yng Nghymru 1927-1977* (357 o dudalennau!), *Hoff Ddysgedig Nyth* (hanes Coleg Diwinyddol Caerfyrddin), *Byddin y Brenin, Protest a Thystiolaeth* a *Chwyldro Duw a Homiliau Eraill*. Ei gyfrol gyntaf oedd *Blas Virginia* (1964) yn disgrifio ei brofiad fel myfyriwr yn yr Unol Daleithiau wedi cael ysgoloriaeth i fynd yno pan oedd yn weinidog yn Llanbryn-mair.

Roedd yn aelod ffyddlon hefyd o'r Cymrodorion a'i gyfraniad a'i gwmnïaeth bob amser yn gyfoethog a chynnes. Nid oedd yn ddieithr ddyn ym Mharc yr Arfau chwaith na Gerddi Sophia.

Nid ymhlith y deallusion yn unig y llwyddodd i greu perthynas ond â phawb o bob gradd. Un o'r troeon olaf i ni'n dau (wedi cael ein coffi wythnosol mewn gwesty nid anenwog!) oedd cyfarfod ag un o'r digartref yn gwerthu y *Big Issue*. Dewi'n gofyn iddo o ble yr hanai. "Ce-diff" meddai yntau. "O - you should learn Welsh you know. You say 'Bore Da' and you'll sell many more copies of 'Big Issue'!" Ac ychwanegu "You say 'Diolch yn fawr' now." Fe'i gadawsom a'n tri yn gwenu'n braf.



Dewi Eirug Davies a Beti Rhys, wrth iddi dorri'r gacen yn ei pharti pen-blwydd yn 90 oed yn gynhyrach eleni.
*Llun: Robin Griffith*

Bydd bwlch mawr iawn ar ei ôl i lawer ohonom.

*Huw Ethall*

## Llwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Roedd yn dda gweld i lawer o'n dinasyddion fod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala a'r Cyffiniau.

Ar y **Sadwrn** cyntaf, daeth un enw cyfarwydd iawn i'r brig sef Band RAF Sain Tathan a ddaeth yn ail yn Adran 2, cystadlaethau'r bandiau pres.

Ar y dydd **Llun**, mor braf oedd clywed band dur Ysgol Uwchradd Fitzalan yn ei morio hi ac yn cael y fath gymeradwyaeth, ynghyd â'r wobr yn y gystadleuaeth agored i offerynwyr. Roedd yr un mor hyfryd gweld bod Côr Caerdydd yn adran y corau mawr yn datblygu'n gôr anodd ei guro. Daeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth wych.

Tro Gavin Ashcroft oedd hi ddydd **Mawrth**. Daeth yn gyntaf yn y ddawns stepio i fechgyn. Ym myd trosi drama, cafodd Betsan Powys, Treganna, gymeradwyaeth uchel am ei throsiad o ddrama anodd gan Brecht. Mae Almaeneg yn rhan o radd Betsan.

Ar y dydd **Mercher** daeth gwobr gyntaf i Bethan Esther Williams, Radyr, yng nghystadleuaeth adrodd y dysgwyr, a daeth Paul Carey Jones, Rhiwbina, yn drydydd yn yr unawd Lieder. Ac i goroni'r diwrnod, enillodd Paul Elliot o Gasnewydd, ond sy'n byw yn y ddinas ar hyn o bryd, wobr Dysgwr y Flwyddyn.

Ar y dydd **Iau**, daeth Dawnswyr Treganna'n gyntaf yng nghystadleuaeth tlws y Gymdeithas Ddawns Werin a daeth Côr Canna'n ail yn y gystadleuaeth i gorau merched. Enillodd Ross Evans ysgoloriaeth o £2,000, sef Gwobr Goffa Rowland Jones.

Tawel fu hi ar y dydd Gwener ond ar y dydd **Sadwrn**, enillodd Elen Rhys y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth canu alaw werin Lady Herbert Lewis a chafodd ail ardderchog am adrodd yng nghystadleuaeth lefaru Llwyd o'r Bryn. Aeth y wobr gyntaf am berfformio drama fer i Gwmni'r Crwys a'u drama 'O'r Niwl i'r Nef'. Cymerwyd rhan gan Janet Parry Jones, Bob Roberts, Non Davies, Robin Jones, Aran Dallimore a Dafydd Roberts. Y cynhyrchydd oedd Chris Jones.

Hefyd, enillydd y Fedal Aur mewn Celfyddyd Gain oedd Iwan Bala, sy'n byw yng Nghaerdydd ers tro bellach.

Nid yw'r rhestr mor hir ag arfer, ond dealla'r *Dinesydd* fod nifer yn hogi eu harfau ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac Eisteddfod Bro Ogwr ar stepen y drws.

**Yn y rhifyn hwn: Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro**

# Y Dinesydd

**Medi 1997, Rhif 230. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road,Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Hydref at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 19 Medi:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S.E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 578106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Thomas, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ........................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: .......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Heol Velindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ........................................................................


.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: .......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Heol Velindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

# CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 162** **Medi 1997**



**AR DRAWS**

7. Dyma a ddaw o dorri arf ar lan y môr. (8)
9. Cyfarwyddo a chodi'r gân. (6)
10. Archebu nwyddau. (5)
11. Nid yw hyn yn llythrennol wir, hyd yn oed am y pydew dyfnaf. (8)
12. Cartref ysblennydd meistri gwaith haearn Dowlais, ac a fu yn ysgol uwchradd ac yn amgueddfa wedi hynny. (6,8)
15. Fyddwn i ddim yn gwneud hyn pe byddai rhywbeth tebygol yn digwydd. (6)
16. Uchafbwynt uchder y ffurfafen. (6)
18. G.C.G. ar lafar lleol. (5-3-6)
20. Y cryfaf ni all wneud mwy na hyn. (8)
22. Rhagrithiwr yw'r gŵr sy'n pregethu efengyl ... yw yn ei chredu. (3-2)
24. Rhaid cael boi abl i roi sglein ar bethau. (6)
25. Fe ddaru mi ganlyn dyn Sali i drybestod. (8)

**I LAWR**

1. Oedi a wnes. (8)
2. Cymaint ag sy'n ddigon i lenwi. (4)
3. Aderyn sy'n heidio i noswylio ym margodion ambell ddinas. (6)
4. Mae sôn am hwn (o dan enw arall) yn brefu am yr afonydd dyfroedd. (4)
5. Lluniwr cynhyrchiol. (10)
6. Y mae'n dileu y fflam. (6)
8. Yma, yng Nghymru, y dewch o hyd i Benfro. (2-7)
13. Fe all y fath fudiad politicaidd fod yn gudd. (10)
14. Mae yna ddiffyg ar yr hyn a drefnwyd i Non ganoli arno. (9)
17. Hanner dwsin o droeon. (3-5)
18. Hyfryd o greadur arfordirol. (6)
19. Fel y gwnaeth y Gwladfawyr. (6)
21. I'w daflu mewn priodas, cyn dydd y conffetti. (4)
23. Cael eich hudo gan hoeden uchel ei chloch? (4)

**Cystadleuaeth Rhif 161**

Daeth un ymgais ar bymtheg i law. Roedd gwall bach diofal yn un ohonynt, a'r lleill i gyd yn hollol gywir. Yr ymgais a dynnwyd ar hap o'r pentwr oedd eiddo H.O. Hughes, Annedd Wen, Y Ffôr, Pwllheli. Fe fydd y tocyn llyfrau ar ei ffordd iddo gyda hyn.

Y datryswyr cywir eraill oedd: Delwyn Tibbott, Pen-tyrch; Maxwell Evans, Penarth; Tecwyn Vaughan Jones, Tywyn, Meirionnydd; Margaret Jones, Rhiwbina; Meurig Jones, Heol Chargot, Caerdydd; Heledd Hall, Treganna; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Rhodri Jones, Penarth; Huana Simpson, Y Bont-faen; Marged Davies, Llandaf; Myfi Cosslett, Y Mynydd Bychan; Nia Williams, Creigiau; Carys Humphreys, Bangor; a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhif 162**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 22 Medi os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Ethol Diaconiaid yn Ebeneser

Fe etholwyd pum diacon newydd yn Eglwys Ebeneser, Caerdydd, sef Mrs Megan Williams, Mr Arfon Jones, Mr Arthur Bowen, Mr Arwel Peleg Williams a Mr Arwyn Jones, ac fe'u derbyniwyd gan aelodau'r eglwys yn y cwrdd nos Sul, 1 Mehefin 1997. Anogwyd yr eglwys gan y gweinidog, Y Parchedig Ddr Alun Tudur, i roi pob cefnogaeth i'r diaconiaid newydd hyn.

## Newyddion o'r Crwys

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

**Parchg Cynwil Williams** a etholwyd yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 1998-99.

**Miss Eirian Edwards** a etholwyd yn flaenores newydd.

**Mrs Cath Williams** a benodwyd yn gaplan i fyfyrwyr Cymraeg colegau Caerdydd. Bydd ei swyddfa/ystafell yn festri'r Crwys.

**Cathrine Ann Parry a Nicholas John Morgan** a briododd ar 7 Mehefin. Bu'r neithior yng Ngwesty'r Tŷ Newydd, Draenen Pen-y-graig.

**Dr Arfon Lloyd Jones a Dr Diana Smith** a briododd ar 19 Gorffennaf. Bu'r neithior a'r parti priodas yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale, Amgueddfa Werin Cymru.

* * *

## Y CYLCH LLYFRYDDOL

Erbyn hyn trefnodd Pwyllgor y Cylch y rhaglen ar gyfer y gaeaf nesaf, gan gofio bod *Y Dinesydd* yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 1998. Neilltuir noson ar ddiwedd y tymor i roi cyfle i bobl a fu'n gysylltiedig â chyhoeddi papur bro Caerdydd a'r cylch edrych yn ôl ar hynt a helynt cyhoeddi'r papur yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf. Bydd y noson arbennig hon yn disodli am y tro y trefniant fu'n bodoli ers rai blynyddoedd bellach pryd y bu gwahanol awduron yn siarad am eu gwaith.

Ar 21 Mawrth eleni trefnodd Huw Ethall i ni glywed profiad tri o'n haelodau. Bu ein Hysgrifennydd egnïol, Wyn James, yn sôn am ei ysgrifennu 'academaidd' ar y naill ben a'i gyfrolau 'poblogaidd' *Dechrau Canu* a *Carolau a'u Cefndir* ar y pen arall, am ei waith ymchwil gyfredol i fywyd a gwaith Ann Griffiths, ac am ei waith yn golygu ffrwyth llafur awduron eraill.


Soniodd Ray Evans, enillydd Fedal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun 1986, am ei gwaith yn 'potsian mewn gwahanol feysydd' a'r dylanwadau a fu arni, o farddoni yn ystod dyddiau ysgol ac anfon ei gwaith i'r *Cymro* i elwa o sylwadau Dewi Emrys, i lunio sgriptiau rhaglenni sebon a pharatoi llyfr ar gyfer yr arddegau heddiw - ac wedi dal ati er bod golygydd *Cymru'r Plant* wedi gwrthod y stori a anfonodd hi ato yn chwech oed!

Cawsom glywed gan Ifor Rees am lyfrau a luniodd yn y gyfres 'Bro a Bywyd' ar T.H. Parry-Williams, Cynan a Gwŷr Llên Cwm Tawe - a'r un am Wŷr Llên Cwm Aman sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Yna aeth â ni i fyd y cyfryngau a sôn am lyfrau o'i waith a oedd yn gysylltiedig â rhaglenni radio a theledu y bu yntau'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys llyfrau am deithiau yn y wlad hon a thros y môr. Clywsom am rwystredigaethau gwaith o'r fath - ac am ambell fonws a wnaeth y cyfan yn werth-chweil.

Noson ddiddorol iawn, a diolch i Huw Ethall am drefnu.

*D. Gwyn Jones*

**DATRYSIAD CROESAIR GORFF./AWST**




## Calendr y Dinesydd

**Iau, 18 Medi**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 p.m. i ddechrau bwyta am 7.30 p.m. (ac **nid** am 8.00 p.m. fel yn y gorffennol). Gwraig wadd: Siân Emlyn.

**Gwener, 19 Medi**
Theatr Sgraps yn cyflwyno 'Tua'r Gorllewin', cyfaddasiad Cymraeg o ddrama gan Sam Shepard, yn arena Theatr Sherman am 8.00 p.m. Tocynnau: 01222-230451.

**Gwener, 26 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llyfrau Erchwyn Gwely' gan Havard a Rhiannon Gregory, yn festri Capel yr Annibynwyr, Minny Street, am 7.00 p.m.

**Llun, 29 Medi**
Cell Cymdeithas y Cymod: Adroddiad gan Nia Rhosier ar Ail Gynhadledd Ecwmenaidd Ewrop, yng nghapel Bethel, Rhiwbina am 10.00 a.m.

**Llun, 6 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Sgwrs gan Tal ac Iris Williams am y llun 'Salem', yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Iau, 9 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel yr Annibynwyr, Minny Street, am 7.30 p.m.

**Gwener, 10 Hydref**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson dan ofal y Llywydd, Mrs Sally Davies, yn festri capel Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Gwener, 17 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Golygu Kate!' gan Harri Pritchard-Jones, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

**Cydymdeimlwn** â'r Parchedig Emlyn Jenkins, cyn-weinidog Ebeneser ar farw'i wraig, Margaret Elonwy (Peg) yn Llanbedr Pont Steffan ganol mis Mehefin. Bu gwasanaeth coffa iddi yng Nghapel Soar, Llanbed. Cydymdeimlir hefyd â Huw, eu mab, a'r teulu.

## Dau a dau yn bedwar

Llongyfarchion i Dewi Griffiths, Caerdydd a gynt o Lanelli ar ei ethol yn Llywydd Cymdeithas Cyfrifyddion Siartredig De Cymru. Derbyniodd yr anrhydedd yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Arth, Y Bont-faen.

Annwyl Ddarllenydd,

Os ydych chi'n gofalu am berthynas, neu ffrind sy'n sâl, yn anabl, yn hen neu'n fregus yna rydych chi'n 'gynhalydd'. Ydych chi'n gwybod am y budd-daliadau a gwasanaethau sydd ar gael i'ch helpu chi ac am yr hawliau newydd sydd gennych o dan Ddeddf (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) Cynhalwyr? Ydych chi'n teimlo nad oes neb yn deall eich sefyllfa ac yr hoffech siarad â rhywun sy'n gwybod beth yw bod yn gynhalydd? Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yn awyddus i glywed oddi wrthych.

Rhan bwysig o waith y Gymdeithas yw cefnogi datblygu grwpiau o gynhalwyr, hybu cynhalwyr ifainc, cynhyrchu deunyddiau dwyieithog a rhoi gwybodaeth i gynhalwyr a phobl broffesiynol.

Os hoffech dderbyn pecyn gwybodaeth neu os hoffech sgwrsio ag un o'n staff yna cysylltwch â ni yn ein swyddfa ar Stâd Ddiwydiannol Pant Glas, Bedwas, Casnewydd NP1 8DR. Ein rhif ffôn yw 01222 880176.

Yn ddiffuant,

*Gwenda Williams a Maggie Titterton*

## Newyddion

Llongyfarchiadau i **Catrin a Gwydion Lewis**, Y Rhath, ar enedigaeth **Bedwyr**, brawd bach newydd i **Ifan, Gerwyn** ac **Aled**.

Llongyfarchiadau i **Carol Davies a Dafydd Jones** ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau i **Angharad**, merch Nan a Chris Rees, ar ei phriodas â **John Haydn Hughes** yn y Barri, ddydd Sadwrn, 28 Mehefin.

Ganwyd wyres fach i **Valmai Evans**, Heol Don. Daeth **Siwan Haf** i aelwyd **Dylan a Christine** i ymuno â **Geraint Wyn** ar 1 Mehefin i lonni'r haf i'r teulu!


Croeso i **Dafydd Rhys**, mab **Rhodri** a **Maria Brown**, Broadway, Y Bont-faen. Fe'i ganwyd ym mis Mehefin.

Un ar bymtheg oed yw **Gwenno Saunders**, Glanyrafon, Caerdydd ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Coed y Gof a Glantaf. Mae hi'n siarad Cymraeg a Chernyweg yn rhugl ac yn un o oreuon y byd am ddawnsio Gwyddelig. Cafodd ei dewis i fod yn rhan o'r sioe 'Lord of the Dance' sy'n teithio'r byd. Pob lwc iddi. Ei thad yw Tim Saunders, y llenor a'r ysgolhaig, ac mae ei mam Lyn Mererid yn aelod brwd o Gôr Cochion Caerdydd.

**Yn ddiweddar** bu Dewi Mefin Jones a'i wraig Eileen o'r Gaiman yn y Wladfa yn ymweld â Chymru a threuliwyd peth amser yn aros gyda Shân Emlyn yn Llandaf. Mae e'n gefnder i Eirene White, cyn aelod Llafur Dwyrain Fflint. Ei thad hi oedd Thomas Jones Rhymni, a fu ar un adeg yn ysgrifennydd preifat i Lloyd George a hefyd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Coleg Harlech. Rhymni yw enw ffarm teulu Dewi Mefin yn ardal y Gaiman.

Ailetholwyd Shân Emlyn yn ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Ariannin yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas yn Eisteddfod y Bala. Mae hi wedi bod wrth y gwaith ers dros ugain mlynedd bellach, a diolchwyd iddi am ei holl ymdrechion ar ran y Gymdeithas.

## Anrhydeddau'r Colegau




Yn seremoni raddio myfyrwyr y Coleg Cerdd a Drama eleni, gwnaed nifer o bobl enwog yn gymrodyr er anrhydedd, ac yn eu plith yr oedd **Emyr Jenkins**, prif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Ymhlith y rhai a dderbyniodd yr un anrhydedd gan Brifysgol Cymru Caerdydd, yr oedd **Andrew Davies**, yr ysgrifennwr sgriptiau, gynt o Riwbina a mab i Wynford Davies, cyn athro Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd y Bechgyn, Caerdydd, **Tanni Grey**, campwraig gyflymaf Prydain mewn cadair olwynion, ac **Ingrid Surgenor**, cyfeilydd swyddogol cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd.

## Medal Aur i Rhodri Mears

Derbyniodd Rhodri Mears o Ddraenen Pen-y-graig (*Thornhill*) dystysgrif aur o dan Gynllun Dug Caeredin, mewn garddwest ym Mhlas Buckingham yn Llundain ddiwedd mis Gorffennaf. Derbyniodd Rhodri ei wobr gan ferch y tywydd, Siân Lloyd, mewn cydnabyddiaeth o'i weithgareddau yn y gymuned, sgiliau cerddorol ac arbenigrwydd mewn cerdded ar daith bedwar diwrnod rhwng Machynlleth a Llanymddyfri. Bydd Rhodri, sydd newydd ddychwelyd o flwyddyn 'Fwlch' yng Nghanada, yn dechrau ar gwrs gradd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, ym mis Medi. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf.

## Taith gerdded Ymchwil y Galon

Cynhelir taith gerdded noddedig yng Nghaerdydd ar 21 Medi er budd Sefydliad Ymchwil y Galon ac ymhlith yr ysgolion fydd yn cymryd rhan mae ysgolion cyfun Cymraeg Glantaf, Rhydfelen, Cymer a Llanhari. Yn ddiweddar bu'r chwaraewr rygbi adnabyddus, Nigel Walker (sy'n dysgu'r Gymraeg yn ail iaith), yn ymweld â'r ysgolion hyn i hybu'r achos. Y llynedd cerddodd tua 500 o bobl a chodi £18,000.

## Drama Sgraps

Mae cwmni drama newydd - 'Theatr Sgraps' - ar fin mynd ar daith o Gaerdydd trwy Gymru. Dyddiad y cynhyrchiad cyntaf (yn Theatr Sherman) yw 19 Medi am 8yh. Dau sydd y tu ôl i'r cwmni arloesol hwn yw Morgan Hopkins a Iestyn Llwyd. Bydd darllenwyr *Y Dinesydd* yn adnabod Iestyn fel mab T. Arfon Williams, gynt o Heol Don, yr englynwr tra medrus.

Mae Iestyn yn dangos medrusrwydd tebyg ym myd y ddrama. Ef sydd wedi addasu'r ddrama gyntaf y byddant yn ei pherfformio, sef *Tua'r Gorllewin* (addasiad o *True West* gan Sam Shepard). Mae'n ddrama rymus, gyffrous a herfeiddiol sy'n llawn hiwmor tywyll. Mae'n cychwyn mewn bwthyn diarffordd ar gyrion prifddinas ac mae Alun dan bwysau mawr i gwblhau ei sgript ffilm gyntaf. I wybod beth sy'n digwydd wedyn, rhaid ichi fynd i weld y ddrama!

Un arall sy'n gysylltiedig â hi yw un gymharol newydd ymhlith y dinasyddion, Siân Summers (gynt o Fangor).

Pam 'Sgraps'? Wel, yn fyr, mae sawl cwmni teithiol yn cael grantiau sylweddol i fynd ar daith, ac mae'r cwmni hwn wedi llwyddo i gael y 'sborion' sydd ar ôl ar gyfer ei fenter ef - y 'sgraps' felly. Gyda'r sgraps yma wrth gefn, mae'r cwmni'n bwriadu cyflwyno'r ddrama un ar bymtheg o weithiau yng Nghymru ac mae'n arbennig o addas i bobl ifainc. Dymuna'r *Dinesydd* bob hwyl iddo.

## Cwmni Drama'r Crwys

Yn y llun isod, gwelir Bob Roberts, cadeirydd Cwmni Drama'r Crwys, yn derbyn 'Cwpan Gwynfor' gan y beirniad, Morien Phillips ar ôl ennill y gystadleuaeth Drama Un Act yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala eleni. Hefyd gwelir Janet Parry Jones, ysgrifennydd y cwmni drama, a Non Davies, swyddog cyhoeddusrwydd Theatr Crwys.

**Bydd cyfle i weld perfformiad o'r ddrama fuddugol, "O'r Niwl i'r Nef", yn Theatr Crwys, Nos Fawrth, 30 Medi, am 7.30p.m.**



*Llun: Robin Griffiths*

# YN GYMRAEG ...
# YNG NGHAERDYDD
# A'R FRO

## Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro

## ~ MEDI 1997 ~

Cyfeiriadur yw hwn a ddatblygwyd yn wreiddiol, trwy gydweithrediad rhwng CYD: De Morgannwg, Cwmni Surrexit a'r *Dinesydd,* i gyd-fynd â'r ŵyl lwyddiannus *Yn Gymraeg ... Yng Nghaerdydd a'r Fro*, a drefnwyd gan CYD: De Morgannwg yn Neuadd Dewi Sant yn Ionawr 1993.

Diwygiwyd y Cyfeiriadur yn drwyadl yn 1996 gan Ysgrifennydd Pwyllgor *Y Dinesydd*, Mrs Julie Jones, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddi a'r rhai a fu'n ei chynorthwyo am eu holl lafur.

Bwriedir cynhyrchu'r Cyfeiriadur yn flynyddol fel atodiad yn rhifyn Medi o'r *Dinesydd.* Gofynnir, felly, i unrhyw un fydd am ddiwygio manylion cofnod neu ychwanegu cofnod newydd anfon at Ysgrifennydd Pwyllgor *Y Dinesydd* mewn da bryd ar gyfer hynny. Ei chyfeiriad yw 28 St. Francis Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 1AW.

# ADDYSG

## MEITHRIN

### *MEITHRINFA*

Yr unig feithrinfa ddyddiol Gymraeg yng Nghaerdydd yw:
**Si-lwli**
71 Ffordd Romilly, Treganna, Caerdydd CF5 2FL
Cyswllt: Ruth Parry
Ffôn: 01222 667076
Llun-Gwener 8.00am-6.00pm
(51 wythnos y flwyddyn)

**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**
Prif Swyddfa: 145 Albany Road, Caerdydd.
Ffôn: 01222 485510

### *CYLCHOEDD MEITHRIN CAERDYDD*

Cyswllt ar gyfer cylchoedd meithrin a chylchoedd 'Ti a Fi' Caerdydd:
Chris Jones, Swyddog Datblygu Caerdydd, ar 01222 464091 neu 01222 620788.

**Adamsdown**
Cylch Meithrin yr Hen Gapel,
Canolfan Cymunedol Adamsdown,
Metal Street, Adamsdown CF2 1JY
Llun-Gwener 9.30-12.30

**Caerau**
Eglwys Saintwell, Heol Trelái
Mawrth-Gwener 9.30-12.00
Mercher, Iau 12.30-2.30

**Yr Eglwys Newydd**
Festri Capel y Methodistiaid, Kelston Road
Llun-Gwener 9.15-12.00

**Glanyrafon**
Eglwys y Methodistiaid, Machen Place, Glanyrafon
Llun-Gwener 9.30-12.30

**Llaneirwg**
Canolfan Addysg Cymunedol, Crickhowell Rd., Llaneirwg
Llun, Mawrth, Mercher, Gwener 9.00-12.00

**Llanisien**
Cylch Meithrin yr Hen Ysgol
Old School Annexe, Llwynypia Rd, Llys-faen
Llun-Gwener 9.00-12.00

**Llanrhymni**
Canolfan Ieuenctid Cae Castell, Llanrhymni
Llun, Mercher, Gwener 9.15-12.15

**Nant Lleucu**
Canolfan Howardian, Pen-y-lan
Llun-Gwener 9.30-12.00

**Y Parc**
Capel Salem, Market Rd., Treganna
Llun-Gwener 9.10-11.40
Mawrth, Mercher, Iau, Gwener 1.00-3.00 p.m.

**Pontcanna**
Canolfan yr Urdd, Conway Rd.
Llun-Gwener 9.00-12.00

**Pentre-baen**
Canolfan Ieuenctid Waterhall, Pentrebane Rd., Tyllgoed
Llun-Gwener 9.30-12.00
Llun, Mawrth, Iau 1.00-3.00pm

**Pen-twyn**
Canolfan Addysg i Oedolion, Pen-twyn
Mawrth, Iau, Gwener 9.15-12.15

**Radur**
Old Church Rooms, Park Rd., Radur
Llun-Iau 9.15-12.00

**Rhiwbina**
Neuadd Capel Bethel, Heol Maes y Deri
Llun-Gwener 9.00-12.00
Mercher-Gwener 1.00-3.00

**Treganna**
Canolfan Gymunedol Treganna
Llun-Gwener 9.30-12.00
Mercher, Iau, Gwener 9.30-12.00
Llun-Gwener 1.00-3.00 p.m.

**Trelái**
Bowling Green, Mill Rd., Trelái
Llun-Gwener 9.30-12.30
Llun a Mawrth 1.00-3.00

**Treoda**
Neuadd Capel Tabernacl, Merthyr Rd., Yr Eglwys Newydd
Llun-Gwener 9.15-12.00

**Tŷ Coch**
Eglwys y Bedyddwyr, Cylchdro Archer Rd., Trelái
Llun-Gwener 1.00-3.15

**Tŷ'r Cymry**
11 Heol Gordon, Y Rhath
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.00-12.00
Llun, Mawrth, Iau 1.00-3.00
**Tyllgoed**
Community Suite, Canolfan Hamdden Tyllgoed
Llun-Gwener 9.15-12.00
**Y Waun**
Heath Citizens Hall, King George V Drive, Parc y Mynydd Bychan
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.30-12.00
**Ystum Taf**
Canolfan Ieuenctid, Bridge Road, Ystum Taf
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9.30-12.00
**Cylch y Bronllwyn**
Neuadd y Pentref, Pen-tyrch
Llun-Iau 9.30-12.00
**Cylch Meithrin Creigiau**
Canolfan Criced, Creigiau
Llun - Gwener 9.30-12.00
**Cylch Meithrin Gwaelod-y-garth**
Llun-Gwener 9.15-12.00
Clwb Meithrin Llun-Gwener 1.00-3.00

### *CYLCHOEDD MEITHRIN Y FRO*

Cyswllt ar gyfer cylchoedd meithrin a chylchoedd 'Ti a Fi' y Fro:
Maryl Richards, Swyddog Datblygu Bro Morgannwg, ar 01656 653084.

***Llandŵ**
Neuadd y Pentref, Llandŵ
Cylch 'Ti a Fi'
Unwaith yr wythnos
**Llanilltud Fawr**
Annexe yr Hen Ysgol, Llanilltud Fawr
Llun-Gwener 9.30-12.00
***Y Bont-faen**
Drws nesaf i Ysgol Iolo Morganwg
Llun-Gwener 9.00-12.00

***Y Barri***
**Bethesda**
Gerddi Alexandra
Llun-Gwener 9.15-12.15
Llun, Mawrth, Gwener 12.45-3.00
**Heol y Llys**
YMCA, Court Rd.
Llun-Gwener 9.45-11.45
**Merthyr Dyfan**
Neuadd Hamdden Home View, Skomer Rd.
Llun-Gwener 9.15-11.45
**Plant Hapus**
Neuadd St. Nicholas, St. Nicholas Rd.
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Capel y Tabernacl,**
Sgwâr y Brenin.
Llun-Gwener 9.30-12.00
**Cylch Tregatwg**
Canolfan Gymunedol Parc Victoria
Llun-Gwener 9.30-12.00

**Cylch y Rhws**
Ystafelloedd Newid y Meysydd Chwarae, Heol Ceri
Mawrth-Gwener 9.30-12.00
***Dinas Powys**
Neuadd Kynance
Llun, Mercher, Gwener 9.15-11.45
Prynhawn Iau - plant hŷn

***Penarth***
Capel Bethel, Plassey Street
Llun-Gwener 9.30-12.00
***Yr Enfys**
Neuadd Gymuned Glyndŵr
Llun-Gwener 9.30-12.00

(* = Cylch 'Ti a Fi')

## CYNRADD

**Ysgol Bro Eirwg**
Ridgeway Rd., Tredelerch, Caerdydd
Ffôn: 01222 777124
**Pennaeth**: Glyn Evans

**Ysgol Gymraeg Coed y Gof**
Beechley Drive, Pentre-baen, Caerdydd
Ffôn: 01222 564585
**Pennaeth**: Arwel Peleg Williams

**Ysgol Iolo Morganwg**
Broadway, Y Bont-faen
Ffôn: 01446 772358
**Pennaeth**: Alan W. Jones

**Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd**
Erw Las, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd
Ffôn: 01222 691247
**Pennaeth**: Mair Robins

**Ysgol Mynydd Bychan**
New Zealand Rd., Cathays, Caerdydd
Ffôn: 01222 613417
**Pennaeth**: Ann Williams

**Ysgol Pen-cae**
Highfields, Llandaf, Caerdydd
Ffôn: 01222 563851
**Pennaeth**: Eleri Jones

**Ysgol Sant Curig**
Ffordd y Coleg, Y Barri
Ffôn: 01446 420109
**Pennaeth**: Eleri Hourahane

**Ysgol Gymraeg Treganna**
Radnor Road, Treganna, Caerdydd
Ffôn: 01222 383887
**Pennaeth**: Rhys Harries

**Ysgol y Wern**
Ffordd Llangrannog, Llanisien, Caerdydd
Ffôn: 01222 762114
**Pennaeth**: Glesni Whettleton

**Ysgol Pwll-coch**
Rhodfa Lawrenny, Lecwydd, Caerdydd
Ffôn: 01222 373453
**Pennaeth**: Anna Roberts

**Ysgol Creigiau**
Creigiau, Caerdydd
Ffôn: 01222 891045
**Pennaeth**: Peter Evans

**Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth,**
Main Rd., Gwaelod-y-garth, Caerdydd
Ffôn: 01222 810489
**Pennaeth**: Gerwyn Williams

**Ysgol Gymraeg Pen-y-garth**
Heol Redlands, Penarth
Ffôn: 01222 700262
**Pennaeth**: Peter Davies

**Ysgol Gymraeg Sant Baruc**
St. Paul's Avenue, Y Barri
Ffôn: 01446 735595
**Pennaeth**: Dulyn Griffiths

**Ysgol Gymraeg Newydd y Barri**
Ffordd Buttrills, Y Barri
**Pennaeth**: Glenna Evans

## UWCHRADD

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf,
Caerdydd CF4 2JL
Ffôn: 01222 562879
**Prifathro**: Huw Thomas

# CAPELI AC EGLWYSI

**Bethel, Rhiwbina (Methodistiaid)**
Maes y Deri, Rhiwbina, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. D. Haydn Thomas
Ffôn: 01222 212760
Oedfa: 10.15 am. Ysgol Sul: 10.15 am
Clwb Ieuenctid: Nos Iau, 7.30 pm

**Bethel, Penarth (Annibynwyr)**
Stryd Plassey, Penarth
**Gweinidog**: Parchg. Meurwyn Williams
Ffôn: 01222 563219
Oedfa: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Bethlehem, Gwaelod-y-garth (Annibynwyr)**
**Gweinidog**: Parchg. Ddr. T.J. Davies
Ffôn: 01222 843750
Oedfaon: 10.30am (a 5pm weithiau)

**Capel y Crwys (Presbyteriaid)**
Heol Richmond, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. W.I. Cynwil Williams
Ffôn: 01222 486457
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11am a 11.30 am

**Dewi Sant (Yr Eglwys yng Nghymru)**
Cilgant Sant Andreas, Caerdydd
**Ficer**: Parchg. Aled Edwards
Ffôn: 01222 751418
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm

**Ebeneser (Annibynwyr)**
29 Heol Siarl, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Ddr. Alun Tudur
Ffôn: 01222 490582
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.15 am

**Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd
(Rhymney St., Cathays, o Hydref 1997 ymlaen)
**Gweinidog**: Parchg. Gwynn Williams
Ffôn: 01222 490687
Oedfaon: 10 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Yr Eglwys Undodaidd**
West Grove, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Eric Jones
Ffôn: 01685 873440
Oedfaon: 3.30 pm ar yr ail Sul o'r mis

**Capel Minny Street (Annibynwyr)**
Y Waun Ddyfal, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Ieuan Davies
Ffôn: 01222 763251
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul yn ystod yr oedfa foreol

**Salem (Presbyteriaid)**
Stryd y Farchnad, Treganna
**Gweinidog**: Parchg. D. Haydn Thomas
Ffôn: 01222 212760
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm

**Tabernacl (Bedyddwyr)**
Yr Ais, Caerdydd
**Gweinidog**: Parchg. Denzil John
Ffôn: 01222 867769
Oedfaon: 10.30 am a 6 pm
Ysgol Sul: 11.30 am

**Tabernacl, Y Barri (Annibynwyr)**
Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Gweinidog**: Parchg. Beti-Wyn Davies
Ffôn: 01446 700121
Oedfaon: 11 am a 6pm (4pm yn y gaeaf)

**Ysgol Sul Tabernacl, Yr Eglwys Newydd**
**Cyswllt**: Moelwyn Preece
Ffôn: 01222 611059
Ysgol Sul Gymraeg am 2.30 pm

## CHWARAEON

**Clwb Cadw'n Heini**
**Cyswllt**: Eirug Jenkins
Ffôn: 01222 616501
**Cyfarfod**: Nos Lun o fis Medi
ymlaen yn Ysgol Gyfun Glantaf

**Clwb Criced Ifor Bach**
Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby,
Caerdydd
Ffôn: 01222 232199
**Cyswllt**: Robin Hughes
Ffôn: 01222 493808

**Clwb Cymric (Pêl-droed)**
**Cyswllt**: Ian Edwards
Ffôn: 01222 621697
**Cyfarfod**: Bob dydd Sadwrn ar ôl y
gemau, Clwb Cameo, Pontcanna

**Clwb Nofio'r Cymry**
**Cyswllt**: Gaynor C Jones
Ffôn: 01222 627668
**Cyfarfod**: Nos Fawrth yn Ysgol
Uwchradd yr Eglwys Newydd

**Clwb Pêl-droed Inter Tafarn**
**Cyswllt**: Gareth Huw
Ffôn: 01222 213288
**Cyfarfod**: Bob nos Iau, 6.30 tan
7.30 pm, ar gyrtiau tenis y Mynydd Bychan

**Clwb Rygbi Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt**: Steve Lloyd
Ffôn: 01222 228481
**Cyfarfod**: Bob nos Lun
am 6.30 pm yn y Gampfa,
Ysgol Glantaf Uchaf, Ystum Taf

**Clwb Rygbi Ieuenctid Caerdydd**
**Prif Hyfforddwr**: Huw Jones
Ffôn: 01222 842811
Amcanion: Clwb rygbi i blant 7-15 oed
**Cyfarfod**: Bore Sadwrn, 11.00 tan 12.00
ar feysydd Ysgol Glantaf Isaf, Tyllgoed

**Cymdeithas Golff y Ddinas**
**Cyswllt**: Ceri Preece ar 01222 224871
est. 2228 neu Dafydd Hampson-Jones
ar 01222 394021
**Cyfarfod**: Cwrdd 3/4 gwaith y flwyddyn
ar gyrsiau gwahanol.

## CYMRAEG I OEDOLION

**Adran Addysg Barhaol**
Prifysgol Cymru, Caerdydd,
38 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3BB
Ffôn: 01222 874831/2
**Cyswllt**: Dr Gwenllian Awbery
Amcanion: Trefnu dosbarthiadau
addysg oedolion, gan gynnwys Cymraeg
fel ail iaith ar bob lefel.

**Awdurdod Addysg Caerdydd**
Cyrsiau i ddysgwyr o bob safon mewn
amrywiol ganolfannau ledled y sir.
**Cyswllt**: Gill Stephen
Ffôn: 01222 250439

**Canolfan Dysgu Cymraeg**
42 Heol y Parc, Caerdydd CF1 3DQ
**Cyswllt**: Dr Robert Owen Jones
Ffôn: 01222 390980/874710
Amcanion: Dysgu cyrsiau dwys ac uwch.
**Cyfarfod**: Rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau
bob dydd o'r wythnos trwy gydol y flwyddyn,
a chyrsiau preswyl a hyfforddi athrawon.

**Canolfan Iaith Acen**
Tŷ Ifor, 1 Stryd y Bont, Caerdydd
**Cyswllt**: Sian Merlys
Ffôn: 01222 665455
Amcanion: Dysgu cyrsiau o bob safon i oedolion.
Clwb bob dydd Sadwrn am 11.00-2.00
ar gyfer ymarfer Cymraeg.

**Canolfan yr Urdd**
Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd
Ffôn: 01222 513046
**Cyfarfod**: Gwersi Cymraeg ar nos
Lun 7-9 pm a dydd Iau 1-3 pm.

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath,
Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt**: Paul Leonard
Ffôn: 01222 486469
Amcanion: Dysgu Cymraeg ar bob lefel.
Cyrsiau dwys i ddechreuwyr ac i
ddysgwyr mwy profiadol ddwywaith
y flwyddyn ynghyd â digwyddiadau
cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn.

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA)**
**Cyswllt**: Christine Franks
Ffôn: 01222 513046
Ysgolion Undydd a Chlwb Coffi yng
Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**CYD Caerdydd a'r Fro**
Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca
(*City Road*), Y Rhath, Caerdydd
Amcanion: Dod â Chymry Cymraeg a
dysgwyr at ei gilydd.
**Cyswllt**: Peter Bradley
Ffôn: 01222 763426
**Cyfarfod**: Bob nos Iau o 9.15 pm
ymlaen tan stop-tap.

**CYD Pobl y Bont**
**Cyswllt**: Jeanne Crabb
Fflat 1, Tŷ Woodstock, Y Stryd Fawr,
Y Bont-faen CF7 7AF
Ffôn: 01446 774452
**Cyfarfod**: Dydd Gwener yn Y Dug
(Duke of Wellington) 12.00-2.00 pm.
Dydd Mawrth mewn gwahanol dai
am 10.00-12.00. Grŵp sgwrsio anffurfiol.
Gwibdeithiau. Wedi ei anelu at ddysgwyr
a Chymry Cymraeg.

**YMCA Caerdydd**
Y Rhodfa, Caerdydd CF2 3AG
Ffôn: 01222 489101
**Cyswllt**: Maureen Ireland
Amcanion: Cymdeithas Gristnogol
â pholisi cadarnhaol er hybu'r Gymraeg.
Dosbarthiadau Cymraeg i bob lefel.

## GRWPIAU PWYSO

**Cell Caerdydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath,
Caerdydd CF2 3AJ
**Cyswllt**: Paul Leonard
Ffôn: 01222 452168
Amcanion: Ymgyrchu dros gyfartaledd
i'r Gymraeg a dwyieithrwydd naturiol.
**Cyfarfod**: Cyfarfodydd Cell yn fisol ar nos
Sul yn Nhŷ'r Cymry.

**Rhieni Dros Addysg Gymraeg**
Amcanion: Hybu tyfiant addysg
gyfrwng-Gymraeg:

**Cangen Caerdydd**
**Cyswllt**: Paul Morgan
50 Springwood, Llanedeyrn, Caerdydd
Ffôn: 01222 731211
Cyfarfod yn fisol yn ystod y
flwyddyn ysgol.

**Cangen y Fro**
**Cyswllt**: Adrian Lewis
46 Victoria Road, Penarth
Ffôn: 01222 702570
Cyfarfod yn fisol yn ystod y
flwyddyn ysgol.

## HAMDDEN

**Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd**
**Cyswllt**: Idwal Hughes
Ffôn: 01222 623873
**Cyfarfod**: Bob yn ail brynhawn Mercher
am 2.00 pm yn festri Capel Minny Street.
Trefnir cludiant mewn bws mini.
Siaradwyr a gweithgareddau gwahanol.

**Clwb Gwawr Caerdydd**
**Cyswllt**: Bethan ar 01222 843422
neu Manon ar 01222 216503

**Cyfarfod**: Mewn gwahanol leoedd ar nos Iau gyntaf pob mis o Fedi i Orffennaf. Clwb i ferched. Amrywiol weithgareddau.

**Clwb Ifor Bach**
11 Stryd Womanby, Caerdydd CF1 2BR
Ffôn: 01222 232199
Amcanion: Clwb cymdeithasol Cymraeg i aelodau cofrestredig. Ar agor nos Wener a nos Sadwrn. Adloniant bob penwythnos. Cymdeithasau amrywiol.

**Côr Caerdydd**
**Cyswllt**: Gwawr Owen
Ffôn: 01222 691924
**Cyfarfod**: Nos Fercher am 7.30 pm yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Côr Godre'r Garth**
**Cyswllt**: Penri Williams
Ffôn: 01222 890040
**Cyfarfod**: Nos Sul am 7.30 pm yn Neuadd y Pentre, Efailisaf.

**Côr Merched Canna**
**Cyswllt**: Delyth Medi Jones ar 01222 619934 neu Elspeth Hughes ar 01222 554663
**Cyfarfod**: Nos Lun am 7.45 pm yn festri Capel Salem, Treganna.

**Côr Merched y Garth**
**Cyswllt**: Eleri Roberts
Ffôn: 01443 208211
**Cyfarfod**: Nos Iau am 7.30 pm yng Nghapel Efailisaf.

**Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch**
**Cyswllt**: Dafydd Hampson Jones
Ffôn: 01222 394021
**Cyfarfod**: 5/6 gwaith y flwyddyn yn y Churchills. Siaradwr gwadd. Ciniawa anffurfiol bob mis.

**Cwmni Dawns Werin Canolfan Caerdydd**
**Cyswllt**: Ann Martin
Ffôn: 01222 492440
**Cyfarfod**: Nos Iau am 7.30 pm yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Cwmni Drama'r Crwys**
**Cyswllt**: Bob Roberts
Ffôn: 01222 627903
**Cyfarfod**: Nos Fercher am 7.30 pm. yng Nghapel y Crwys, 77 Heol Richmond.

**Cwmni Drama'r Gadwyn, Radur**
**Cyswllt**: Philip Wyn Jones
Ffôn: 01222 565998
**Cyfarfod**: Mannau ymarfer yn amrywio. Perfformiadau yn Ysgol Gyfun Radur.

**Cwmni'r Gwter**
**Cyswllt**: Non Ellis Jones
Ffôn: 01222 563312
Amcanion: Gweithdy drama i blant.
**Cyfarfod**: Nos Lun o 4.30 - 8.30pm a nos Iau o 4.30 - 8.30pm yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy.

**Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd**
**Cyswllt**: Tony Couch
Ffôn: 01222 753625
**Cyfarfod**: Nos Lun gyntaf pob mis ac eithrio Awst a Medi. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Cinio Merched Caerdydd**
**Cyswllt**: Valmai Evans
Ffôn: 01222 612104
**Cyfarfod**: Pum cyfarfod blynyddol ar yr ail nos Iau ym misoedd Medi, Tachwedd, Ionawr, Mawrth a Mai am 7.00 pm. Cinio tri chwrs a siaradwr gwadd.

**Cylch Cinio Merched y Barri**
**Cyswllt**: Eira Rowley
Ffôn: 01446 792801
**Cyfarfod**: Bob 6 wythnos am 7.30 pm yng Ngwesty'r Arth, Y Bont-faen. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Cinio y Barri a'r Fro**
**Cyswllt**: Islwyn Jones
Ffôn: 01222 594533
**Cyfarfod**: Gwesty Mount Sorrell nos Fercher ola'r mis am 7.30 pm. Cymdeithasu. Siaradwyr gwadd.

**Cylch Llyfryddol Caerdydd**
**Cyswllt**: E Wyn James
Ffôn: 01222 628754
Amcanion: Hybu diddordeb ym mhob agwedd ar fyd llyfrau.
**Cyfarfod**: Yn fisol rhwng Medi a Mawrth ar drydedd nos Wener y mis am 7.00 pm.

**Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd**
**Cyswllt**: Parchg. Ifor Rees
Ffôn: 01222 625785
**Cyfarfod**: Nos Wener gyntaf y mis ac eithrio Ionawr.

**Cymdeithas Cymrodorion y Barri**
Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, Sgwâr y Brenin, Y Barri
**Cyswllt**: Elsie Avery
Ffôn: 01446 732203
**Cyfarfod**: Yn festri'r Capel ar drydedd nos Fawrth y mis am 7.15 pm, Medi - Mai.

**Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd**
**Cyswllt**: Megan Williams
Ffôn: 01222 628733
**Cyfarfod**: Ail nos Wener y mis o fis Hydref tan fis Mawrth yn neuadd Capel Bethel, Yr Eglwys Newydd.

**Cymdeithas Cymry'r Wenallt**
**Cyswllt**: John Rees
Ffôn: 01222 482922
**Cyfarfod**: Ail nos Wener y mis am 8.00 pm yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd o fis Hydref tan fis Mai. Cymdeithas i ddynion.

**Cymdeithas Gymraeg Penarth**
**Cyswllt**: Parchg. Maxwell Evans
Ffôn: 01222 701963
**Cyfarfod**: Bob nos Fercher gyntaf y mis o Hydref-Mai yng Nghapel Bethel, Heol Plassey, Penarth.

**Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina**
**Cyswllt**: E. Haydn Jones
Ffôn: 01222 620487
**Cyfarfod**: Nos Lun gynta'r mis yn Neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, Rhiwbina.

**Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch**
**Cyswllt:** Derwyn Williams
Ffôn: 01222 512016
**Cyfarfod:** Neuadd Eglwys Sant Pedr, Dinas Powys ar ddydd Llun cyntaf pob mis (Medi - Mai) am 7.30pm.

**Cymdeithas Wyddonol Caerdydd**
**Cyswllt**: Gwen Jones ar 01222 563914 neu Rhys Morris ar 01222 666120
Amcanion: Hybu dealltwriaeth a mwynhad o wyddoniaeth ymhlith lleygwyr a gwyddonwyr.
**Cyfarfod**: Ail neu drydedd nos Lun y mis o Hydref i Fai am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru, Caerdydd.

**Merched y Wawr, Bro Radur**
**Cyswllt**: Brenda Jones
Ffôn: 01222 842946
**Cyfarfod**: Nos Fercher gynta'r mis o Fedi hyd Fehefin yn Neuadd y Methodistiaid, Ffordd Windsor, Radur.

**Merched y Wawr, Caerdydd**
**Cyswllt**: Mair Elvet Thomas
Ffôn: 01222 382589
**Cyfarfod**: Yng Nghapel Minny Street, Caerdydd ar ail nos Lun y mis o Fedi i Fehefin/Gorffennaf. Un noson y flwyddyn ar gyfer dysgwyr.

**Merched y Wawr, Y Barri**
**Cyswllt**: Nan Rees ar 01222 554555 neu Llywela Evans ar 01222 597464
**Cyfarfod**: Nos Fawrth gyntaf bob mis Hydref- Ebrill yn Ysgol Sant Curig, Y Barri.

**Merched y Wawr, Y Bont-faen**
**Cyswllt**: Eira Rowley
Ffôn: 01446 792801
**Cyfarfod**: Ail nos Lun y mis yn Neuadd y Dref, Y Bont-faen

**Twrch Trwyth (Dawnsio Gwerin)**
**Cyswllt**: Dewi Rhisiart
Ffôn: 01222 344805
**Cyfarfod**: Nos Lun am 7.30 pm. yng Nghlwb Ifor Bach, 11 Stryd Womanby, Caerdydd.

**Urdd Gobaith Cymru**
Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Pontcanna, Caerdydd CF1 9NT
Ffôn: 01222 236201
**Cyswllt**: Siân Jobbins
**Dydd Llun:**
6 pm - 7 pm Adran yr Urdd, Llandaf
**Dydd Gwener:**
5 pm - 6 pm Clwb Gymnasteg yr Urdd
5.30 pm - 6.30 pm Clwb Dawnsio 7-14 oed
**Dydd Sadwrn:**
9 - 10 am Clwb Pêl-droed yr Urdd, Bl. 1 a 2
10 - 11 am Clwb Pêl-rwyd yr Urdd
10 - 11 am Clwb Pêl-droed yr Urdd, Bl. 3-6 (ar Gaeau Llandaf)

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## Criced

Dal i obeithio am ennill y Bencampwriaeth yr oeddwn ar ganol Awst, a hynny wedi colli yn Rownd Gynderfynol y Nat West yn Chelmsford. Dylid sylwi ar ystadegau bowlio Waqar Younis yno - 48 o rediadau oddi ei 9 pelawd heb yr un wiced, a gwelais i Grayson (rhif 5) yn bwrw 6 a dau 4 i'r ffin y tu ôl i'r bowliwr mewn un pelawd. Dechreuodd â dwy belen lydan, ac ym Mae Colwyn yn erbyn Swydd Nottingham, lle y bu partneriaeth o 80 rhwng y seithfed a'r degfed batiwr. Roedd ei gyflymdra'n amlwg, ond ni pharodd fawr o drafferth i Hindson (rhif 10) a drawodd sawl pedwar oddi ar ei fowlio. Ymddengys na all amrywio ei fowlio pan fydd pwysedd arno.

Trown yn awr at yr hyn sy gan **Ceri Preece** i'w ddweud ...


Ar waethaf siomedigaeth Chelmsford mae yna le i obeithio am well yfory ym myd criced yr ardal. Mae datblygiadau cyffrous criced Cymru a Morgannwg o ddiddordeb i ddarllenwyr *Y Dinesydd* o wybod mai un o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd, sef Melin Gruffydd, yw'r ysgol fwyaf llwyddiannus eleni eto yng nghystadlaethau criced siroedd Caerdydd a Bro Morgannwg. Enillodd Melin Gruffydd gystadlaethau Kwik Cricket a'r Wrigley's Softball yng Ngerddi Soffia. Pan sylweddolir i ryw 60 o ysgolion gymryd rhan, mae camp yr ysgol yn un arbennig iawn. Mae'r diolch pennaf am y llwyddiant yn daladwy i Alun Higham am ei waith diflino gyda'r bechgyn ac am ei frwdfrydedd cyson.

Clod arall a ddaeth i'r ysgol drwy berfformiadau'r cricedwyr ydoedd dewis tri ohonynt i chwarae dros y sir, sef Rhodri Lloyd a Martyn Jenkins (blwyddyn 6) a Mathew Preece (blwyddyn 5). Ymddengys fod traddodiad criced ym Melin Gruffydd yn saff o barhau gan fod brwdfrydedd y bechgyn wedi golygu trefnu tri thîm cyn diwedd tymor yr haf. Hefyd, fydd prif dîm yr ysgol a gafodd gymaint o lwyddiant eleni ond yn colli tri aelod i Ysgol Glantaf fis Medi.

Yn y llun fe welir timau Melin Gruffydd a Grangetown ar ôl rownd derfynol cystadleuaeth Kwik Cricket ar 5 Mehefin.



## Y Bêl Hirgron



Dechreuodd y tymor newydd yng ngwres canol Awst, ond cyn hynny ymwelsai tîm yr ysgolion o dan 18 oed â Seland Newydd. Enillwyd tair o'r chwe gornest, ond crasfa a gafwyd yn yr ornest Ryngwladol ym Mharc Eden, Auckland, o 45 pwynt yn erbyn 10 (saith cais i un) - gwahanol iawn i'r hyn a ddigwyddodd yn 1990 pan enillwyd pob gornest, gan gynnwys yr un Ryngwladol yn Christchurch o 17 pwynt yn erbyn 11 (3 chais i 2). Nid oedd yr un chwaraewr o Ysgol Glantaf yn y garfan y tro hwn, ond y tro cynt Huw Harries, mewnwr Glantaf, oedd un o'r chwaraewyr amlycaf ar y daith. Da y cofiaf ei dad yn fy ffonio (ar fy ngorchymyn i) yn yr oriau mân â'r newyddion gwych. Diolch na ddywedais wrth neb am fy ffonio'r tro hwn.

Mae Huw wedi ei amlygu ei hun erbyn hyn â chlwb yr Harlequins yn Llundain ac mae hi'n bur debyg y bydd wedi dechrau ar ei ail dymor â'r clwb hwnnw erbyn hyn. Mae sôn am Gymro'n chwarae yn y wlad arall yn dod â mi ar unwaith at un o'r prif broblemau sy gennym; ni wyddwn pan oeddwn yn ysgrifennu'r llith hon beth a ddigwyddai ynglŷn â'r Cymry oedd yng nghlwb Richmond, ond bu cryn sôn amdanynt yn gorfod chwarae dros eu clwb yn hytrach na thros eu gwlad (yn Wrecsam yn erbyn Romania).

Ni ddylai'r dewiswyr ystyried unrhyw chwaraewr a'n gadawodd ar gyfer y tîm Cenedlaethol; cyn clywed am yr helynt rhwng Richmond a'n Hundeb, nid oedd neb yn cytuno â mi, ond nid felly y mae hi bellach. Dylem ni ddilyn Ffrainc a pheidio â dewis unrhyw chwaraewr sy'n aelod o glwb yn Lloegr. Trafoder. A ydyw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i mi newid fy meddyg, tybed? (Tad Huw yw hwnnw.)

Erbyn hyn bydd y chwe wythnos o ornestau yng Nghwpan Cwrw Ewrop wedi dechrau, ac fe fydd Huw Harries yn chwarae ar y maes lle y dechreuodd ei yrfa pan fydd Caerdydd yn wynebu Harlequins.

### Marathon Angharad Mair

Mae Angharad Mair, y ddarlledwraig, yn anffodus yng Nghymru am nad yw'n nyddu englynion neu'n canu gitâr, neu byddai wedi cael llawer mwy o sôn amdani erbyn hyn, ond cyflawnodd gamp aruthrol yn Athen yn Awst gan ddod yn gyntaf o blith holl ferched Prydain yn y ras farathon ac yn 23ain o blith merched y byd. Mae hon yn ras 25 o filltiroedd a gynhaliwyd mewn gwres mawr. Mae Angharad yn siomedig na ddaeth ymhlith y pymtheg cyntaf, meddai hi, ond mae'r *Dinesydd* yn wir falch iddi hi wneud mor dda ac mae'n edrych ymlaen at ei llongyfarch am ei champ nesaf! Cafodd gefnogaeth ei brawd Rhys a'i briod Sioned a ddaeth draw i Athen ar eu mis mêl a rhoi eu cefnogaeth i Angharad yr un pryd!

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

dan ofal B.D. Harries

Disgyblion Ysgol Pen-y-garth, Penarth a enillodd ornest ragbrofol Cwis Llyfrau y Cyngor Llyfrau dan 9 oed.



Mali Lewis, Mrs G Lloyd, Elen Hawkley, Rhian Jones, Cathryn Lloyd-Evans, Lowri Jones.

Disgyblion Ysgol Pen-y-garth, Penarth a enillodd ornest ragbrofol Cwis Llyfrau y Cyngor Llyfrau dan 12 oed.



Bethan Morton, Sara Jones, Gwen Holeyman, Miss G Watts, Rhys Morgan, Elin Rees.

Mali Llywelyn, Ysgol Pen-y-garth, Penarth, enillydd y gystadleuaeth delyn a'r gystadleuaeth gitâr yng Ngŵyl Cerddorion Ifainc De Morgannwg.



## 'Cymraes' o'r Caribî!

Llongyfarchion i Mrs Beverly Lennon am dderbyn gwobr Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd fel myfyriwr gorau'r Gyfadran Addysg a Chwareon. Roedd yn hyfryd ei gweld yn cael ei gwobr yn y seremoni raddio yn Neuadd Dewi Sant. Pan ddaeth i Gymru chwe blynedd yn ôl ni fedrai Mrs Lennon siarad Cymraeg ond meddai, 'Wedi imi ddod i Gymru, teimlais ar unwaith yr awydd i ddeall enwau lleoedd ac i fod yn rhan o'r diwylliant. Wedi imi ddysgu'r iaith roeddwn eisiau ei chyflwyno i eraill.'

Bydd Mrs Lennon wedi dechrau ar ei swydd gyntaf, fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Cantonian, Caerdydd, erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos.

## Ysgol y Wern

### Sŵn y Gân

Eleni eto bu cynhyrchiad blynyddol Ysgol y Wern yn llwyddiant mawr. Cafwyd dau berfformiad gwefreiddiol o 'Sŵn y Gân' gan yr adran iau, gyda phlant Blwyddyn 6 yn cymryd rhan ar y llwyfan ac yn y gerddorfa. Disgyblion blynyddoedd 3, 4 a 5 oedd y corws. Derbyniwyd canmoliaeth uchel gan y rhieni am safon yr actio a'r canu yn ystod y ddau brynhawn.

### Gwneud mosaic ac arian!

Ar ddiwrnod olaf y tymor cyflwynodd plant Blwyddyn 6 Ysgol y Wern siec o £697.20 i Mrs Heather Owen, a oedd yn cynrychioli Ysbyty'r Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn fe fu'r plant yn gweithio gyda'r artist Anna Todd yn gwneud mosaics. O ganlyniad i'r gwaith fe gynhyrchodd Mr Neil Turner gardiau cyfarch o'r lluniau. Am dri diwrnod, agorwyd siop yn yr ysgol i werthu'r cardiau a gwerthwyd 249 o becynnau. Plant Blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am yr hysbysebu a'r gwerthiant. Diolch i bawb am y gefnogaeth.

## Gorau arf arf dysg

Mae Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru, Caerdydd, wedi paratoi nifer o gyrsiau diddorol at y gaeaf. Dr Gwen Awbery sy'n gyfrifol am eu trefnu ac mae wedi paratoi ystod o gyrsiau i feithrin sgiliau iaith Cymry Cymraeg a dysgwyr rhugl. Am y tro cyntaf bydd cwrs ar Gymraeg Busnes a hefyd gwrs Cymraeg Llafar Cyhoeddus, ar gyfer y sawl sy'n wynebu'r angen yn y gwaith neu fel aelod o fudiad gwirfoddol, i ddefnyddio'r Gymraeg mewn pwyllgorau a chyfarfodydd cyhoeddus neu wrth ddelio â'r cyfryngau. Ym myd llên, mae cyrsiau ar waith Kate Roberts a'r ddrama Gymraeg - neu ddysgu sut i gynganeddu ar gyfer Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr! Mae cyrsiau hefyd ar enwau lleoedd, Patagonia, llên gwerin a dwyieithrwydd yn y Gymru fodern. Ac os ydych chi am fynd y tu hwnt i'r Gymraeg, beth am ddysgu Llydaweg neu Gernyweg? Os carech fwy o wybodaeth neu brospectws cysylltwch â Gwen Awbery ar 01222 874831/2.

## Lawnsio llyfr



Grahame Davies *Llun: Erica Williams*

Yn y Babell Lên ar ddydd Llun Eisteddfod Genedlaethol Y Bala, lawnsiwyd llyfr newydd Grahame Davies o Bontcanna.

Daeth Grahame, sy'n hanu o Goed-poeth ger Wrecsam, i'r ddinas fis Gorffennaf y llynedd ar ôl treulio peth amser yn newyddiadura ym Merthyr Tudful. Mae nawr yn gweithio i BBC Cymru. Mae ei wraig Sally, sy'n hanu o Gaerffili, yn gweithio yng Nghylch Meithrin Treganna. Mae ganddynt un ferch, Haf.

Yng nghanol ei brysurdeb, bu'n fyfyriwr ymchwil rhan-amser yn Adran Gymraeg Prifysgol Cymru Caerdydd, gan ennill ei ddoethuriaeth ym mis Gorffennaf eleni.

Enw ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth yw *Adennill Tir*. Bu Merthyr Tudful yn gyfnod ffrwythlon iddo a'r ardal honno sydd wedi ysbrydoli'r rhan fwyaf o'i gerddi. Mae'n rhaid bod rhywbeth yn ardal Canna, a barnu oddi wrth lwyddiannau'r eisteddfod o'r ardal honno. Wrth longyfarch Grahame, does ond gobeithio y daw'r awen i wenu arno ymhellach yn y rhan hon o'r ddinas i ddenu ail gyfrol.

## Anharddu'r Plas

Ar ôl tair blynedd o waith cynnal a chadw ar olion muriau Plas yr Esgob ar y Grîn yn Llandaf mae'r sgaffaliau a'r tarpolin a fu'n anharddu'r safle wedi diflannu. Bellach bydd pobl yn gallu eistedd mewn hedd yn yr ardal o fewn y plas a mwynhau'r awyrgylch unigryw sy'n bodoli yno.

---

## Llyfrau Gwyddeleg i Lyfrgell y ddinas

Mae 'Comhluadar Chaerdydd' (Cymdeithas Wyddeleg Caerdydd) wedi cyflwyno casgliad sylweddol o 250 o lyfrau Gwyddeleg i Lyfrgell Dinas Caerdydd. Bu'r llyfrau yn eiddo i John Breese, aelod hynaf y gymdeithas, a fu farw yn 1994.

Ganed John Breese ym Machynlleth yn 1925. Yr oedd yn gerddor medrus, a bu'n athro cerdd am ychydig cyn mynd i weithio i Swyddfa'r Post, yn Llundain yn gyntaf ac yna yn Abertawe. Yr oedd yn ieithydd medrus hefyd, yn medru darllen y Corân yn Arabeg a'r Beibl yn Ffrangeg.

Tra oedd yn Llundain, daeth yn aelod o Blaid Cymru. Yn yr un cyfnod, dechreuodd ymddiddori yn yr Wyddeleg, ac ar ôl iddo ymddeol i Gaerdydd yn 1988, daeth ei gartref yn Rolls Street yn ganolbwynt cymdeithasol ar gyfer siaradwyr Gwyddeleg y ddinas.

Wedi ei farw, rhoddwyd ei lyfrau 'Comhluadar Chaerdydd' i Lyfrgell y Ddinas, ac y maent yn awr ar gael yn hwylus i'r cyhoedd eu defnyddio. (Gellir cael hyd iddynt ar gyfrifiadur y Llyfrgell dan y pennawd 'Gaelic'.) Mae'n bosibl cael rhestr gyflawn ohonynt ar ddisg (fformat AppleMac) trwy anfon £1 at Ysgrifennydd 'Comhluadar Chaerdydd', 116 Stryd Brunswick, Treganna, Caerdydd CF5 1LN (01222-343251).

## Graddio'n Feddyg

Llongyfarchion i Ceri Evans, Treganna, sydd newydd orffen ei gwrs meddygol yn Ysgol Feddygol Guys a St Thomas yn Llundain. Bydd ei swydd gyntaf yn y Royal Berkshire and Battle Hospital. Mae Ceri'n fab i Eirianedd Evans, Treganna, sydd wrthi'n brysur yn gofalu bod llu o erthyglau Cymraeg yn ymddangos yn rheolaidd yn y *Western Mail*.

## Marw Geraint Morris

Ym mis Gorffennaf bu farw Geraint Morris, Pennaeth Drama HTV Cymru, yn Ysbyty Cas-gwent. Roedd yn fab i'r Parchedig Gwilym Morris, Bethel, Gwaelod-y-garth. Enillodd lawer o wobrau am ei gynyrchiadau dramatig ar y teledu yn ystod ei yrfa. Gedy wraig, Siân, a dau fab, Steffan a Simon, cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu colled sydyn.

## Penodiadau gan y Bwrdd

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynyddu ei bwyslais ar farchnata gyda phenodiad **Dr Gwenan Llwyd Evans** yn bennaeth ei Adran Farchnata a Chyfathrebu.

Ganed a magwyd Dr Evans yng Nghlwyd a derbyniodd ei haddysg yn Ysgol y Merched Grove Park, Wrecsam. Ar ôl graddio mewn biocemeg, bu'n Rheolwr Datblygu Cynnyrch gyda Seward Laboratory, rhan o gwmni Unilever, ac yna'n Ddirprwy-Olygydd *Clinica World Medical Device News*, cyhoeddiad meddygol wythnosol. Er 1983 bu'n gweithio fel awdur, golygydd ac ymgynghorydd marchnata hunan-gyflogedig a chwe blynedd yn ôl fe gyd-sefydlodd Walton-Evans, cwmni ymgynghorol marchnata a chyfathrebu ym Mrynbuga (Usk). Mae Dr Evans yn briod a chanddi dri o blant.

Mae **Enid Lewis** hefyd wedi ymuno â'r Bwrdd yn ddiweddar fel Pennaeth yr Adran Gyllid. Mae'n hanu o Aberaeron a derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Graddiodd mewn mathemateg o Brifysgol Cymru Caerdydd. Derbyniodd ei hyfforddiant fel cyfrifydd gyda chwmni Touche Ross ac mae wedi gweithio yn eu swyddfeydd yng Nghaerdydd, Casnewydd, Bryste a Sydney. Cyn ymuno â'r Bwrdd, roedd yn Rheolydd Cyllid Lusis Cyf., un o gwmnïau grwp Hyder Cyf.

* * *



Cyflwyno Casgliad John Breese o Lyfrau Gwyddeleg i Lyfrgell Dinas Caerdydd
*Llun: Robin Griffith*

CBAC
WJEC
Y SIOP LYFRAU

**FYDDWCH CHI'N DILYN CWRS TGAU NEU SAFON UWCH ELENI?**

- Cyn-bapurau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol
- Atebion enghreifftiol
- Meysydd llafur
- Llyfrau gosod ac arweinlyfrau
- Canolfan Adnoddau Ewropeaidd **NEWYDD**
- Adnoddau i ddysgwyr
- Llyfrau darllen i blant a phobl ifanc

***Galwch heibio'r Siop Lyfrau ar ei newydd wedd***

Ar agor: Llun - Gwener
9.00am - 5.00pm

*245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd CF5 2YX*
*(gyferbyn ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)*

**J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY**

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

**Theatr Sgraps**
yn cyflwyno

# TUA'R GORLLEWIN

COMEDI DYWYLL YN SEILIEDIG AR UN O DDRAMÂU SAM SHEPARD

**CAERDYDD** - Theatr y Sherman,
Nos Wener, Medi 19 am 8.00

**BARGOED** - Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,
Nos Fawrth, Medi 30 am 7.30

**CRYMYCH** - Theatr y Gromlech,
Nos Fercher, Hydref 1 am 7.30

**PONTYCLUN** - Ysgol Gyfun Llanhari,
Nos Iau, Hydref 2 am 7.30

**Y RHONDDA** - Ysgol Gyfun Y Cymer,
Nos Sadwrn, Hydref 3 am 7.30

**CAERFYRDDIN** - Theatr Haliwell,
Nos Fawrth, Hydref 7 am 8.00

**ABERYSTWYTH** - Ysgol Penglais,
Nos Wener, Hydref 10 am 7.30

**FELINFACH** - Theatr Felinfach,
Nos Sadwrn, Hydref 11 am 7.30

Caerdydd
**Prifysgol Cymru**

**ADRAN ADDYSG BARHAOL A DATBLYGU PROFFESIYNOL**

Dewis Eang o Gyrsiau Cyfrwng Cymraeg:

*Gloywi Iaith a Sgiliau Cyfieithu*

*Llenyddiaeth*

*Ysgrifennu Creadigol*

*Enwau Lleoedd*

*Llydaweg*

Am wybodaeth bellach, cysyllwch â Gwen Awbery (01222) 874831/2

Yn rhagori mewn ymchwil a dysgu